| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **22, HYDREF, 2009** |
| **TEITL:** | **AELODAU CYFETHOLEDIG AR Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC** |
| **PWRPAS:** | **PENODI AELOD CYFETHOLEDIG YCHWANEGOL AR Y PWYLLGOR** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **CYNG. J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - ADNODDAU.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS,<br>PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |

**1.** Yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2007 penderfynodd y Cyngor ar aelodaeth cyfetholedig i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys 5 aelod cyfetholedig statudol hefo pleidlais, sef cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru, cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rhufeinig a 3 cynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr.

**2.** Penderfyniad y Cyngor oedd i ychwanegu 7 aelod cyfetholedig arall i wasanaethu ar y pwyllgor, heb bleidlais. Maent yn cynrychioli:

- Penaethiaid ysgolion cynradd y sir
- Penaethiaid ysgolion uwchradd y sir
- Fforwm Undebau Athrawon y sir
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd
- Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

**3.** Effaith y penderfyniad yma oedd i gwtogi ar nifer y cynrychiolwyr oedd gan Fforwm Undebau Athrawon y sir. Yn dilyn hyn bu trafodaethau gyda'r Fforwm Undebau Athrawon. Canlyniad y trafodaethau oedd cais i gynyddu nifer eu cynrychiolwyr ar y pwyllgor craffu o un i ddau.

**4.** Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 8 Hydref 2009 a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn i gynyddu cynrychiolaeth Fforwm Undebau Athrawon y sir i ddau.

**<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

**5.** Bod y Cyngor yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac yn cyfethol un aelod ychwanegol (heb bleidlais) i gynrychioli Fforwm Undebau Athrawon y sir ar y pwyllgor, ac felly cynyddu cynrychiolaeth yr undebau o un i ddau.